COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 7.00y.h. NOS LUN 11 MAI 2015 YN SIAMBR Y CYNGOR TREF.CRICCIETH.

_____

Gweddi Agoriadol.
.....
Cymerwyd y Weddi agoriadol gan y Cyng. Eirwyn Williams.

Cof;-0105/15 Presennol.
.....
Cadeirydd Cyng. Eirwyn Williams.
Is Gadeirydd Cyng. W A Evans
Cyng. Wayne Roberts
Cyng. Phil Jones,
Cyng. Dr E Tudor Jones.
Cyng. Henry Jones.
Cyng. R T Price.
Cyng. Dafydd Lloyd.
Cyng. Elisabeth George.
Cyng. Elisabeth Regan
Cyng. Robert Cadwalader.

Cof;-0205/15 Ymddiheuriadau.
.....
Cyng. Siân Williams.

Cof;-0305/15 Datgan diddordeb.
.....
Bu i Gynghorydd Wayne Roberts ddatgan diddordeb mewn cais cynllunio rhif C15/0226/35/LL Garej Lon Merllyn.

Bu i Gynghorydd Elisabeth George a Dafydd Lloyd ddatgan diddordeb mewn cais cynllunio rhif C15/0410/35/CT Bryn Henllan.

Cof;-0305A/15 Cyfarfod Blynyddol
.....
a) Ethol Cadeirydd 2015/16
Etholwyd y Cyng. W A Evans yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2015/16

b) Ethol Is gadeirydd am 2015/16
Etholwyd y Cyng. Roberts Cadwalader yn Is Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2015/16

c) Mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog.
Yn unfrydol mabwysiadwyd y rheolau sefydlog presennol fel sylfaen i weithio am 2015/16

d) Mabwysiadu'r Rheolau Ariannol.
Yn unfrydol mabwysiadwyd y rheolau ariannol fel sylfaen i weithio am 2015/16

e) Cadarnhau Asesiad Risg o eiddo'r Cyngor
Yn unfrydol derbyniwyd adroddiad y Clerc ar yr asesiad risg o eiddo'r Cyngor Tref

f) Ethol Aelodau i'r is-bwyllgorau canlynol
Is Bwyllgor Cyllid
Cyng. R T Price, Dr E Tudor Jones, Elisabeth George,Henry Jones

Is bwyllgor cynllunio a thrafnidiaeth
Cadeirydd, Is Gadeirydd, Cyng. Wayne Roberts, Phil Jones, Siân Williams, Dafydd Lloyd.

Pwyllgor rheoli'r Neuadd Goffa
Cyng. Siân Williams, a Dafydd Lloyd

Criccieth yn ei Blodau
Cyng. Siân Williams a Dafydd Lloyd

Pwyllgor yr Heddlu
Cyng. Henry Jones

Un Llais Cymru
Cadeirydd y Cyngor

Pwyllgor Mwynderau (Llwybrau,Nadolig,a Thraethau)
Cadeirydd, Is Gadeirydd, Cyng.Henry Jones,Sian Williams,Phil Jones,Eirwyn Williams,Elisabeth Regan.

Pwyllgor Grantiau
Holl Aelodau'r Cyngor.

Cof;-0405/15 Cadarnhau Cofnodion cyfarfod Ebrill 2015.
.....
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod Mis Ebrill fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r gyfraith.

Cof;-0505/15 Materion yn codi trwy ohebiaeth
.....
French Commandos.

Derbyniwyd llythyr pellach oddi wrth y cyfaill a fu mewn cysylltiad â'r Cyngor yn egluro iddo gyfarfod a Cyng. Elisabeth George a Robert Cadwaladr ac iddynt drafod lleoliadau addas ar gyfer Cofeb, hyn wrth gwrs yn ddibynnol ar benderfyniad y Cyngor Tref i symud ymlaen ai peidio.

PENDERFYNIAD;-Deallwyd fod y cyfaill yn bwriadu anfon adroddiad pellach i'r Cyngor , felly aros am yr adroddiad yma cyn symud ymlaen i wneud unrhyw benderfyniad.

Cof;-0605/15 Ceisiadau Cynllunio
.....
Cais C15/0226/35/LL
Dymchwel modurdy presennol a chodi uned gwyliau dau lawr
Modurdy, Lon Merllyn - cynllun diwygiedig.

PENDERFYNIAD;-Gan fod Cyngor Gwynedd eisoes wedi caniatáu dwy uned yn groes i ddymuniadau'r Cyngor Tref er iddynt roi nifer o sylwadau cynllunio dilys yn gwrthwynebu, ni welai Aelodau'r Cyngor Tref unrhyw bwrpas yn gwrthwynebu'r cais yma, i gwblhau'r safle a chan fod cynsail wedi ei greu yn unfrydol nid oedd dewis ond caniatáu.
(*Ni fu i'r Cynghorydd Wayne Roberts gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio ar y cynllun yma)*

Cais C15/0410/35/CT
Torri 3 coeden mewn ardal cadwraeth.
Bryn Henllan, Lon Ednyfed

PENDERFYNIAD;-Argymell caniatau ar yr amdo fod y Swyddog Cadwraeth yn hapus.
(Ni fu i'r Cynghorwyr Elisabeth George a Dafydd Lloyd gymeryd rhan yn y darfodaeth yma na phleidleisio ar y cynllun)

(Ni fu i'r Aelod lleol ar Gyngor Gwynedd gyermyd rhanyn y traqfodaethu, penderfyniadau na phleidleisio ar y ddau gynllun uchod)

Cof;-0705/15 Prosiectau
.....
Nod oedd unrhyw beth pellach i'w adrodd ar hyn obryd gan fod y Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb oddi wrth Gyngor Gwynedd ar brosiect Arosfa allt Caerdyni.

Cof;0-0805/15 Cofeb ger y Castell.
.....
Bu i ddau Aelod adrodd iddynt fynd ar y safle yn wirfoddol i dwtio o gwmpas y gofeb, ond datganwyd pryder gan un Aelod y gall y safle fod yn beryglus oherwydd y dibyn i lawr i lan y môr.

PENDERFYNIAD;- Trefnu cyfarfod safle gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod opsiynau posibl er diogelwch y cyhoedd, Y Cadeirydd, Yr is gadeirydd a'r Cyng. Eirwyn Williams i gynrychioli'r Cyngor Tref.

Cof;0-0905/15 Cymynrodd ddiweddar J T Roberts.
.....
Nid oedd unrhyw beth i'w drafod gan fod y Clerc yn dal i ddisgwyl adroddiad pellach oddi wrth Age Cymru

PENDERFYNIAD;- Y Clerc i anfon i'w atgoffa.

Cof;- 1005/15 Diffribiliwr.
.....
Mewn ateb i lythyr y Cyngor derbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth gynrychiolydd pwyllgor merched Capel y Traeth fod trefniadau mewn llaw i roi hyfforddiant ar gyfer defnyddio'r Diffribileiddiwr drwy gydweithrediad y paramedics lleol, tynnwyd sylw hefyd i'r ffaith mai rhinwedd yr A E D yw ei fod ar gael i bawb ac nad yw hyfforddiant yn angenrheidiol.
Mae wedi dod i sylw'r Cyngor fod sesiynau hyfforddiant i'w cynnal yng Nghapel y Traeth ar Fai 11 a'r Neuadd Goffa ar 18 Mai.

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr wybodaeth.

Cof;-1105/15 Derbyniadau.
.....
£17,000-00 Hanner cyntaf y presept.

PENDERFYNIAD;- Derbyn yr wybodaeth.

Cof;-1205/15 Taliadau.

.....

£ 457.99	Atkin Groundworks - cynnal llwybrau a mynwent Penymaes	Siec	100944
£ 98.00	Cyllid y Wlad (PAYE)		100946
£ 63.00	Swyddfa Post - Stampiau		100947
£1554.08	AON Insurance - Yswiriant y Cyngor		100948

PENDERFYNIAD;- Derbyn yr wybodaeth a rhoi hawl i'r Clerc dalu yr oll o'r biliau.

_____

Daeth y cyfarfod i ben am;- 7.45 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Nos Lun 8 Mehefin 2015
Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 30 Mai 2015

_____